

Arolygiad Dilynol Anabledd Dysgu (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel

Dda, GIG

Gwasanaeth preswyl 17069

Dyddiad yr arolygiad: 9 Tachwedd
2017

Dyddiad cyhoeddi: 12 Chwefror
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	20
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	26
4.	Beth nesaf?	29
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol	30
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	31
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	32
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	33

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol dirybudd o wasanaeth preswyl (17069) o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 9 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth wedi gwella ers yr arolygiad cyntaf ym mis Mehefin 2016 a'r arolygiad dilynol ym mis Chwefror 2017.

Roeddem yn fodlon fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol a'i fod naill ai wedi cwblhau gofynion yr adroddiadau blaenorol neu wrthi'n terfynu gwelliannau unigol.

Fodd bynnag, er bod rhywfaint o'r cynllun gwella blaenorol wedi cael ei gwblhau, mae angen gwaith pellach i gwblhau meysydd eraill.

Gwnaethom nodi rhai meysydd yr oedd angen eu gwella hefyd a oedd yn ychwanegol i'r rheiny a oedd eisoes heb eu cyflawni. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y gwasanaeth yn newid a bod ffyrdd newydd a gwell o weithio ar waith.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn trin cleifion a'i gilydd â pharch, amynedd a charedigrwydd. Roedd tîm staff ymroddedig.
- Roedd gan yr uned reolwr newydd a oedd yn cael ei gefnogi'n dda gan uwch-staff. Roeddem yn gallu gweld bod ymrwymiad i wella'r gwasanaeth er budd y cleifion.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen cysylltu â swyddogion tân er mwyn cael cyngor ynghylch drws ystafell wely benodol.
- Ailsefydlu cyfarfodydd rheolaidd ag adran ystadau'r bwrdd iechyd.
- Uwch-reolwyr i fynychu cyfarfodydd staff i drafod newidiadau parhaus yn y gwasanaeth.
- Mae angen sicrhau bod paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely ar gau fel mater o drefn.

- Mae angen gwella dogfennau ynghylch y defnydd o afaelion lleiaf cyfyngiadol.
- Mae angen hyfforddiant ar staff mewn cefnogaeth weithgar / cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae'r uned yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau anableded dysgu a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r uned yn darparu lleoliadau preswyl ar gyfer uchafswm o chwech o bobl ag anabledau dysgu difrifol, awtistiaeth ac ymddygiad heriol, y gall rhai ohonynt fod wedi'u cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.¹ Mae un o'r ystafelloedd sengl wedi'i throï'n ardal gymunedol dawel ac mae swyddfa fach wedi'i throï'n ystafell therapi galwedigaethol. Roedd pump o gleifion gwrywaidd yn byw yn yr uned ar adeg yr arolygiad hwn.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys rheolwr uned newydd ynghyd â thîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth. Mae seiciatrydd ymgynghorol yn gweithio rhwng yr uned hon ac uned anabledau dysgu arall gyfagos. Mae therapydd galwedigaethol rhan amser a thîm seicoleg sy'n ymweld.

Caiff y gwasanaeth ei reoli a'i weithredu'n gyffredinol gan gyfarwyddiaeth gyfunol iechyd meddwl / anabledau dysgu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o wasanaeth 17069 ddiwethaf ar 13 Chwefror 2017, ac arolygiad dilynol oedd hwnnw yn sgil yr arolygiad gwreiddiol ar 7 Mehefin 2016. Oherwydd cynnydd araf y gwasanaeth wrth wneud gwelliannau, roedd AGIC o'r farn fod angen arolygiad dilynol arall.

Roedd y prif feysydd yr oedd angen eu gwella a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Gwaith adeiladu adferol

¹ Mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gyfraith sy'n nodi pryd y gallwch gael eich derbyn, cadw a thrin yn yr ysbyty yn erbyn eich dymuniadau. Fe'i hadwaenir hefyd fel 'sectioned' yn Saesneg. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'n rhaid i bobl benodedig gytuno bod gennych anhwylder meddyliol sy'n mynnu arhosiad yn yr ysbyty.

- Gofal cleifion, gan gynnwys priodoldeb lleoliadau, llesiant, hawliau dynol a gwaith partner
- Cadw cofnodion
- Iechyd a diogelwch, gan gynnwys rheoli meddyginiaethau
- Llywodraethu, rheolaeth ac arweinyddiaeth mewn meysydd megis cefnogi staff

Diben yr arolygiad hwn oedd dilyn hynt y gwelliannau nad oeddent wedi cael sylw yn ystod yr arolygiad diwethaf.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod cynnydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â gwella amgylchedd yr uned, a oedd yn gwella urddas a phreifatrwydd cleifion.

Yn ogystal, roedd asesiadau wedi cael eu cynnal i sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal a chymorth mwyaf priodol gan dîm integredig o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol.

Fodd bynnag, roedd rhywfaint o welliannau heb eu cyflawni mewn perthynas ag agweddau ar yr arolygiadau cyntaf a dilynol.

Gwelliannau a nodwyd gennym

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod gwaith adferol yn yr uned (yn awr ac yn y dyfodol) yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl i sicrhau iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff. Roedd hwn yn un o'r meysydd darpariaeth gwasanaeth a nodwyd i'w wella yn ystod arolygiad 2016 AGIC ac mae'n dal i fod heb ei ddatrys.
- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC ynghylch y camau i'w cymryd i adolygu a yw lleoliadau cleifion yn yr uned yn parhau i fod yn briodol ac i archwilio llety amgen at ddibenion gofal hirdymor. Mae'r broblem hon yn dal i fod heb ei datrys ers arolygiad AGIC yn 2016.
- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynghylch y modd y bydd yn sicrhau bod llesiant corfforol ac emosiynol cleifion a'u hannibyniaeth yn cael eu mwyafu yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu disgrifiad cynhwysfawr ar gyfer AGIC o'r modd y bydd yn sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu hymgorffori ar draws swyddogaethau a threfniadau

cyflenwi gwasanaethau anabledd dysgu yn unol â gofynion statudol a deddfwriaeth y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC ynghylch y camau i'w cymryd i sicrhau bod staff yn derbyn cefnogaeth briodol yn sgil digwyddiadau a gofnodir ar DATIX. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir dysgu gwersi gyda'r nod o leihau'r perygl o ddigwyddiadau cleifion yn ailadrodd.

Y camau a ddywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Gwnaeth y gwasanaeth ymrwymo i gymryd y camau canlynol yn ei gynllun gwella diweddaedig, dyddiedig 20 Ebrill 2017:

- Mae cais am gyllid cyfalaf ar gyfer tri maes gwaith wedi cael ei gyflwyno a'i flaenoriaethu, ac mae'r gwasanaeth yn aros am adborth gan gydweithwyr yr adran ystadau er mwyn cael dyddiad cychwyn ar gyfer gwaith adferol i'r drws, bath ac addurniadau. Er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â phroblemau cynnal a chadw yn barhaus ac mewn modd amserol, caiff cyfarfodydd safle misol eu cynnal gyda chydweithwyr o'r adran ystadau, a chaiff unrhyw bryderon heb eu datrys eu huwchgwyfeirio trwy bennaeth y gwasanaeth a'r cyfarwyddwyr, fel y bo'n briodol.
- Penodwyd dau o reolwyr anableddau dysgu'r tîm cymunedol i arwain ar y gwaith o olrhain hynt dau unigolyn ar unwaith. Bydd pennaeth y gwasanaeth yn cysylltu â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Benfro i sicrhau bod gweithiwr cymdeithasol yn cael ei glustnodi i helpu i symud y broses ryddhau cleifion yn ei blaen. Bydd dogfennau'n cael eu gwella i gofnodi trafodaethau a'r rhesymeg dros benderfyniadau mewn perthynas ag anghenion llety tymor canolig a hir pob cleient. Mae cyfarfodydd y tîm aml-ddisgyblaethol wedi'u trefnu ar gyfer y tri mis nesaf. Caiff cynlluniau gofal y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eu datblygu i fynd i'r afael yn benodol â'r cyfyngiadau sydd ar waith ar gyfer yr holl gleientiaid sy'n ddarostyngedig i'r trefniadau diogelu, gan gynnwys gofynion llety hirdymor.
- Bydd therapydd galwedigaethol yn rhoi sylw i'r ystafell weithgareddau orlawn sydd ar gael i gleientiaid ar yr uned, ac yn symud unrhyw offer gormodol ymaith. Os bydd manau storio ar yr uned yn gyfyngedig, caiff offer storio priodol eu prynu i hwyluso hyn. Mae hyfforddiant cefnogaeth weithgar yn cael ei gynllunio ac mae pecynnau adnoddau wedi cael eu harchebu. Caiff cynlluniau gweithgareddau eu haddasu i ddangos yn glir dyddiadau cychwyn ac adolygu gweithgareddau yn

ogystal ag awdur y cynllun. I'w datblygu fel rhan o'r broses cefnogaeth weithgar. Caiff cymorth gweinyddol ei ddarparu ar gyfer rheolwr yr uned er mwyn iddo ddatblygu'n benodol system lleoli/cyfeirnodol ffeiliau ar gyfer cofnodion pob un o'r pum cleient. Caiff dogfennau papur perthynol eu cadw gyda'i gilydd mewn nifer finimol o ffeiliau i osgoi dryswch a lleihau risg. Bydd cymorth gweinyddol hefyd yn sicrhau bod yr holl ddogfennau Word a argraffir yn cael eu marcio'n glir ag enw'r awdur a dyddiad creu'r ddogfen. Rhoddir blaenoriaeth i'r gwaith o ddod o hyd i glerc ward parhaol ar gyfer y swydd wag bresennol, y bydd hysbyseb swydd ar ei chyfer yn cael ei chyhoeddi erbyn diwedd Ebrill 2017.

- Mae rheolwr yr uned bellach wedi derbyn yn ddiweddar cynlluniau gofal y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac mae wrthi'n datblygu cynlluniau gofal ar gyfer pob un o'r tri chleient sy'n ddarostyngedig i'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Bydd y cynlluniau gofal hyn yn amlinellu'n glir y rhesymeg dros osod cyfyngiadau ar bob cleient. Dylai adolygiadau a dogfennau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ganolbwyntio ar yr unigolyn a bod yn amodol ar awdurdodiad a chymeradwyaeth. Mae'r pennaeth nyrso wrthi'n ymgymryd ag adolygiad o ddogfennau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar y cyd â chydlynedd Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, gyda chyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 6 Ebrill 2017. Gwaith dadansoddi data ymddwyn sylfaenol i'w gwblhau – bydd y dadansoddi hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu mecanweithiau cofnodi pwrpasol ar gyfer monitro parhaus. Trefnwyd i'r gwaith monitro parhaus ddigwydd ar 11 Ebrill 2017. Adolygu'r gofynion parhaus ar gyfer gwaith cefnogi ymddygiad parhaus, a datblygu model a fydd yn cefnogi'r cleifion i symud ymlaen o'r uned. Caiff templedi ar gyfer cyfarfodydd gweithwyr allweddol eu haddasu i gofnodi'n glir trafodaethau ynghylch yr angen i gynnal cyfarfodydd budd pennaf. Caiff hyn ei ailadrodd ar gyfer cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol a rowndiau ward. Caiff cyfarfodydd budd pennaf dilynol eu nodi'n glir yn y cofnodion/dogfennau.
- Bydd cyfarfodydd gweithwyr allweddol yn archwilio'r hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau ac yna rhennir hyn â'r tîm ehangach a chynhelir trafodaethau yn ystod rowndiau ward, trwy ddefnyddio dulliau monitro ymddygiad a fydd yn nodi mesurau rhagweithiol gofynnol. Cydnabyddir y bydd y manylion hyn hefyd yn cael eu cynnwys yng nghasgliadau'r ymchwiliad ar DATIX. Safonau Iechyd a Gofal, Hanfodion Gofal: Caiff cyfarfod penodol â'r tîm staff ei drefnu ar gyfer Ebrill 2017 i rannu'r adborth a gafwyd yn yr arolwg staff, ac i archwilio ymhellach y sylwadau i'r staff a gymerwyd o'r blwch awgrymiadau. Bydd rheolwr y gwasanaeth yn gofyn am roi mynediad i'r nyrs

arweiniol broffesiynol dros anableddau dysgu at ddata Hanfodion Gofal.

- Adolygu'r polisi gweithredol drafft sydd ohoni a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Cyflwyno cyfarfod llywodraethu clinigol ar gyfer yr uned. Mae ailstrwythuro trefniadau rheoli iechyd meddwl oedolion hŷn ac anableddau dysgu yn cynnwys gallu penodol i un rheolwr gwasanaeth gymryd yr awenau ar yr uned cleifion mewnol. Mae canllaw pwy yw pwy darluniadol o'r strwythur uwch-reoli wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei raeadru ymhlith yr holl staff. Bydd uwch-staff yn parhau i ymweld â'r uned. Mae gwaith sifft yn effeithio ar brofiad pobl o weld uwch-reolwyr, felly mae'r gyfarwyddiaeth yn ystyried ymhellach sut y gellir mynd i'r afael â hyn.
- Roedd rheolwr annibynnol ar gyfer yr uned wedi cael ei benodi ond, oherwydd problem iechyd frys, methodd â dechrau'r swydd; mae'r rheolwr i fod i ddychwelyd i'r gwaith yn raddol o 17 Ebrill 2017. Dwy nyrs gofrestrdig Band 5 wedi'u recriwtio. Un nyrs gofrestrdig Band 5 wedi'i recriwtio i'r banc. Mae'r her recriwtio tymor hwy mewn perthynas â nyrsys anableddau dysgu ar gofrestr risg y gyfarwyddiaeth ac mae'r gwasanaeth wedi datblygu cynllun recriwtio a chadw.

Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilynol

Cadw'n iach

Gwelsom mewn cofnodion cleifion, a dywedwyd wrthym gan reolwyr a staff, fod y meddyg teulu lleol yn ymweld â'r gwasanaeth ddwywaith y mis ar fore dydd Mawrth. Pe bai angen i gleifion weld meddyg teulu rhwng yr ymweliadau hyn, caiff apwyntiad arall ei drefnu. Gwelsom fod ymgynghoriadau ac adolygiadau iechyd wedi cael eu cynnal gan seiciatrydd ymgynghorol, sydd bellach yn ymweld â'r uned bob dydd Mercher.

Roedd seicolegwyr wedi dechrau gweithio gyda chleifion ac roedd pob asesiad wedi cael ei gynnal. Gwelsom fod yr Offeryn Asesu Ymddygiad Cryno² ac asesiadau'r Graddegau Mesur sy'n Seiliedig ar Ymddygiad³ wedi cael eu cwblhau. Mae gwaith arsylwi ar gleifion gan weithwyr proffesiynol wedi bod yn barhaus, a bydd hyn yn llywio'r cynlluniau ymyrraeth ymddygiad cadarnhaol⁴ sydd naill ai wedi cael eu llunio neu wrthi'n cael eu llunio. Roeddent i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Mehefin 2017, ond roedd o leiaf un heb ei gyflawni ar adeg yr arolygiad hwn.

Mae'r therapydd galwedigaethol wedi bod yn gweithio gyda'r tîm therapi iaith a lleferydd ac maent wedi datblygu gweithgareddau synhwyrdd ar y cyd sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion unigol. Gwelsom fod yr ystafell therapi galwedigaethol wedi cael ei thacluso a'i bod bellach yn gweithredu fel ystafell weithgareddau ddwywaith yr wythnos.

Roedd cofnodion nyrsio cyffredinol wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau. Roedd hyn yn dangos bod dull mwy amlddisgyblaethol o ddarparu gofal a chymorth cyfannol ar gyfer y cleifion sy'n byw yn yr uned.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod bwrdd adnabod staff (gan gynnwys uwch-staff) ar gael yn ystafell y staff ac eglurwyd bod cynlluniau i ail-greu'r bwrdd hwn a'i arddangos yn yr ardal fyw gymunedol, a fyddai'n helpu'r cleifion i adnabod pobl a oedd naill ai'n

² Mae'r Offeryn Asesu Ymddygiad Cryno yn ddull asesu hysbysol i'w ddefnyddio wrth gyflawni dadansoddi swyddogaethol. Mae'n archwilio meysydd allweddol sydd fel arfer yn cael eu hasesu gan ddefnyddio dulliau lluosog ac yn gwneud asesiad cyffredinol cryno. Ni ddylid ei ddefnyddio yn lle dulliau eraill, ond yn hytrach ar y cyd â dulliau safonedig eraill.

³ Mae'r Graddegau Mesur sy'n Seiliedig ar Ymddygiad yn raddegau mesur sy'n ychwanegu angorau ymddygiadol at raddegau mesur traddodiadol (e.e. graddegau mesur graffig). Mewn cymhariaeth â graddegau mesur eraill, bwriad y Graddegau Mesur sy'n Seiliedig ar Ymddygiad yw hwyluso amcangyfrifon cywirach o ymddygiad neu berfformiad yr unigolyn.

⁴ Mae cymorth ymyrraeth ymddygiad cadarnhaol yn ddull y gellir ei ddefnyddio i wella diogelwch unigolion a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.

ymweld â'r gwasanaeth (mewn swydd reolaethol) neu'n helpu i'w cefnogi gyda'u harferion byw dyddiol.

Gwelsom fod y paneli arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely'n dal i fod ar agor fel mater o drefn. Nid yw hyn yn urddasol ar gyfer y cleifion ac nid yw'n rhoi preifatrwydd iddynt yn eu hystafelloedd eu hunain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod y paneli arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely'n cael eu cadw ar gau fel mater o drefn i gynnal urddas a phreifatrwydd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd AGIC wedi nodi'n flaenorol fod angen cymhorthion cyfathrebu ar y cleifion sy'n byw yn yr uned i'w helpu i fynegi eu hunain a gwella eu dealltwriaeth o agweddau ar eu gofal dyddiol. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, roeddem yn gallu cadarnhau bod dyfais GoTalk⁵ a chynhyrchion Widgit Health⁶ yn cael eu defnyddio, yr oedd therapydd iaith a lleferydd wedi eu cymeradwyo. Gwelsom hefyd fod gan y tîm staff fynediad at gardiau lluniau i helpu'r cleifion i nodi'r hyn roeddent yn dymuno ei wneud a'r hyn a oedd ar fin digwydd nesaf yn

⁵ Mae GoTalk yn ddyfais gyfathrebu sy'n rhedeg ar bŵer batris y gellir ei defnyddio gan bobl nad ydynt yn gallu cyfathrebu'n dda trwy siarad. Mae rhywun arall (gofalwr neu ffrind, er enghraifft) yn recordio negeseuon – unrhyw negeseuon y bydd yr unigolyn yn debygol o'u hangen, mewn unrhyw iaith, tafodiaith neu acen – sy'n eu galluogi i "ddweud" yr hyn maent yn ei ddymuno drwy bwyso botwm.

⁶ Mae cynhyrchion a symbolau Widgit Health wedi cael eu dylunio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd i fodloni anghenion cyfathrebu defnyddwyr gwasanaeth. Mewn gofal iechyd arferol, mae cyfathrebu clir yn gwella effeithiolrwydd diagnosis a thriniaeth, gan arwain at adferiad cynt a mwy effeithiol. Trwy ddarparu cymorth cyfathrebu, mae cynhyrchion Widgit yn bwriadu gwneud gwelliannau o ran cynnwys cleifion a sicrhau canlyniadau gwell, yn arbennig ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion cyfathrebu.

eu dydd. Ni welsom y cymhorthion cyfathrebu hyn yn cael eu defnyddio yn ystod ein hymweliad diweddaraf.

Dywedwyd wrthym hefyd yn ystod yr arolygiad diwethaf fod dyfais iPad i fod i gael ei phrynu i alluogi un claf penodol i gyfathrebu; anfonwyd cais am asesiad gyda'r adran technoleg gynorthwyol electronig yn Ysbyty Rookwood, Caerdydd. Ni welsom asesiad ar gyfer iPad fel dull cyfathrebu ac ni welsom ddyfais iPad yn cael ei defnyddio yn ystod yr ymweliad hwn.

Dywedwyd wrthym fod Cyfathrebu Llwyd⁷ yn cael ei hyrwyddo, ond ni welsom unrhyw gyfathrebu heblaw cyfathrebu llafar ar ddiwrnod yr arolygiad. Ni welsom basbortau cyfathrebu unigol⁸ yng nghofnodion y cleifion.

Ers ein harolygiad diwethaf, roedd y crac mawr mewn wal uwchben drws ystafell wely (nad oedd yn cael ei defnyddio mwyach gan glaf) a oedd yn estyn bron ar draws hyd cyfan yr un wal ac a oedd angen gwaith atgyweirio strwythurol wedi cael ei drwsio dros dro. Fodd bynnag, wedi i'r ffrâm ddrws gael ei hatgyfnerthu dros dro i atal difrod pellach, nid oedd yn addas bellach i ddal drws tân. Dywedwyd wrthym fod hyn yn mynnu cryn dipyn o waith strwythurol yn awr, ac roedd cais am gyllid cyfalaf wedi bod yn llwyddiannus i gyllido'r gwaith. Yn y cyfamser, nid oedd drws i'r ystafell ac roedd bellach yn cael ei defnyddio fel ardal gymunedol dawel. Gwnaethom ofyn i'r gwasanaeth hysbysu'r awdurdod tân a swyddog tân y bwrdd iechyd i sicrhau bod yr ystafell yn ddiogel i'w defnyddio.

Dywedwyd wrthym yn ystod yr arolygiad diwethaf fod cyfarfod misol wedi cael ei drefnu rhwng rheolwr dros dro'r uned a'r rheolwr ystadau. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod gwaith atgyweirio'n cael ei gynnal mewn da bryd. Wrth drafod yn ystod yr arolygiad hwn, roedd yn amlwg fod y cyfarfodydd hyn wedi peidio oherwydd diffyg ymrwymiad gan yr adran ystadau. Roedd hyn yn golygu

⁷ Diben y dull cyfathrebu llwyd yw defnyddio'r cyfuniad cywir o ddulliau cyfathrebu ar gyfer unigolyn er mwyn sicrhau'r ffurfiau mwyaf llwyddiannus o gysylltu, rhannu gwybodaeth a sgwrsio.

⁸ Llyfryn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer y rheini nad ydynt yn gallu siarad drostynt eu hunain yn hawdd.

bod oedi wrth drafod sut y gellid cynnal y gwaith atgyweirio strwythurol mewn da bryd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth adolygu'r sawl gwahanol ddull cyfathrebu sydd ar gael a sicrhau bod gan bob claf fynediad at y dulliau cyfathrebu mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae angen cofnodi'r rhain yn eu pasbortau cyfathrebu.

Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod yr ystafell a ddefnyddir fel ardal gymunedol dawel yn ddiogel i'w defnyddio heb ddrws tân.

Mae angen i'r rheolwr ailsefydlu cyfarfodydd rheolaidd â'r adran ystadau i sicrhau bod gwaith atgyweirio'n cael ei gynnal mewn da bryd.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roeddem wedi canfod yn flaenorol (yn ystod 2016 a 2017) fod y tîm staff yn ystyrgar ac yn dangos gofal gwirioneddol tuag at y cleifion. Er bod hyn yn dal i fod yn wir, roeddem yn falch o glywed fod y staff yn rhagweithiol wrth annog a chefnogi cleifion i ddod mor annibynnol â phosibl, yn unol â'u galluoedd a'u sgiliau dynodedig.

Roedd cynlluniau gweithredol bellach ar waith i ystyried a oedd yr uned breswyl yn dal i fod yn darparu'r amgylchedd mwyaf priodol i gleifion dderbyn gofal hirdymor. Nodwyd mewn asesiad fod pedwar o'r pum claf bellach yn gallu symud ymlaen i fyw'n annibynnol â chymorth, ac roedd cynlluniau eisoes ar waith er mwyn i un o'r cleifion symud yn y dyfodol agos.

Roedd dau aelod o staff yr awdurdod lleol wedi cael eu clustnodi i symud y lleoliadau hyn yn eu blaen, ond roeddent wedi bod yn absennol oherwydd salwch ers peth amser. Er hynny, mae dau ddatganiad o ddiddordeb wedi'u hystyried, ac mae cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol wedi'i drefnu i drafod trydydd datganiad. Roedd yr awdurdod lleol wedi cyflogi gweithiwr cymdeithasol dros dro i oruchwyllo'r gwaith.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, canfuom fod yr amrediad o weithgareddau cymdeithasol a hamdden i gleifion wedi gwella. Gwelsom hefyd fod yr un ystafell yn yr uned wedi cael ei throsi'n ardal weithgareddau. Ar y pryd, roedd yr

ystafell yn llawn offer ac ni fyddai mwy na dau o bobl yn gallu eistedd yn gyfforddus yno. Yn ogystal, ni welsom fod yr ystafell yn cael ei defnyddio yn ystod ein hymweliad. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad hwn, gwelsom fod yr ystafell wedi cael ei chlirio o annibendod ac roedd tystiolaeth o weithgareddau paentio a chelf a chreffft, a lluniau o weithgareddau awyr agored ar y waliau.

Roedd asesiadau risg cleifion wedi cael eu datblygu, ac roedd gan y gweithgareddau roedd y cleifion yn ymgymryd â nhw ganlyniadau ysgrifenedig a chynlluniau ar gyfer y dyfodol i gynorthwyo'r staff o ddydd i ddydd.

Yn gyffredinol, roedd dogfennau papur cysylltiedig â chleifion unigol wrthi'n cael eu trosglwyddo i system electronig, ac er i'r staff ddweud wrthym y bu problem o ran cael mynediad at y system, ymddengys fod hyn yn gwella. Mae'r staff yn disgwyl y bydd cyfres o offer anableddau dysgu electronig newydd ar waith erbyn mis Ionawr 2018.

Hawliau pobl

Gwelsom fod asesiadau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid⁹ wedi cael eu hadolygu a bod dadansoddiad o ymddygiad unigol wedi cael ei asesu a'i ymgorffori yn amodau'r asesiadau. Roedd yr adolygiad o gymorth ymddygiadol penodol yn barhaus ac roedd y tîm seicoleg yn bwriadu datblygu model i gefnogi cynnydd cleifion. Gwelsom fod templed wedi cael ei lunio i'w ddefnyddio mewn cyfarfodydd gweithwyr allweddol i gofnodi unrhyw benderfyniadau budd pennaf.¹⁰

⁹ Mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ddiwygiad i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Maent yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn unig. Maent yn cyfeirio at y mesurau diogelu ychwanegol angenrheidiol pe bai'r mesurau cyfyngu ac atal a ddefnyddir wrth ofalu am unigolyn yn dwyn ei ryddid oddi arno. Ni ellir defnyddio'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid oni fydd yr unigolyn yn colli ei ryddid mewn cartref gofal neu ysbyty.

¹⁰ Os nodwyd mewn asesiad fod gan unigolyn ddiffyg galluedd yna rhaid i unrhyw gamau a gymerwyd, neu benderfyniadau a wnaed ar gyfer neu ar ran yr unigolyn hwnnw, gael eu gwneud er ei fudd pennaf. Mae'n hanfodol eich bod yn cofnodi eich penderfyniadau budd pennaf. Mae hyn nid yn unig yn arfer proffesiynol da ond, o ystyried y dull seiliedig ar dystiolaeth gofynnol, bydd gennych gofnod gwrthrychol pe bai eich penderfyniadau neu eich prosesau penderfynu'n cael eu herio'n ddiweddarach.

Gwnaethom drafod ffurflenni DATIX eto yn ystod yr arolygiad hwn, yn benodol tystiolaeth gofnodedig o ganlyniad mesurau rhagweithiol a gymerwyd i leihau'r cyfle i ddigwyddiadau o'r fath ailadrodd, a chadarnhad fod y staff yn derbyn adborth/adroddiadau, neu'r cyfle i ddysgu yn sgil digwyddiadau cleifion. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd gweithwyr allweddol bellach (y dangoswyd cofnodion ohonynt fel tystiolaeth) lle'r oedd cyfle i archwilio'r hyn y gellir ei ddysgu yn sgil digwyddiadau a chynnal trafodaethau ynghylch gwella arferion. Cadarnhaodd rheolwr y gwasanaeth fod gan y nyrs arweiniol broffesiynol a rheolwr yr uned fynediad bellach at unrhyw ddata adroddedig. Bydd hyn yn galluogi cyfathrebu gwell a thryloyw i'r rheolwr ac aelodau'r tîm.

Dangoswyd y blwch awgrymiadau staff i ni, a dywedwyd wrthym fod cyfarfod penodol wedi'i drefnu i adolygu'r archwiliad Hanfodion Gofal. Cadarnhaodd rheolwr y gwasanaeth hefyd fod canlyniadau'r arolwg staff yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar welliannau i'r gwasanaeth.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y staff sy'n gweithio yn yr uned yn parhau i wneud pob ymdrech i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, a chanfuom fod y gwelliannau i'r gwasanaeth a oedd yn galw am gamau gweithredu gan uwch-reolwyr wedi cael eu datrys ar y cyfan.

Roedd tîm amlddisgyblaethol estynedig sefydledig ar waith i asesu, cynllunio a monitro'n rheolaidd y gwaith o ddarparu gofal a thriniaeth ar gyfer cleifion sy'n byw yn yr uned. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rhai materion, a oedd yn cynnwys trefniadau neilltuo.

Roedd y problemau a nodwyd yn yr adroddiad diwethaf mewn perthynas ag agweddau ar reoli meddyginiaethau wedi cael eu datrys.

Gwelliannau a nodwyd gennym

- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad llawn i AGIC o'r camau i'w cymryd i sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn yn weithredol ar adegau pan ddefnyddir trefniadau neilltuo mewn ymateb i ymddygiadau cleifion sy'n herio.
- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion llawn i AGIC o'r modd y bydd yn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol a pherthnasol am gleifion ar gael yn rhwydd i staff er mwyn iddynt nodi, blaenoriaethu a rheoli risgiau go iawn a allai achosi niwed difrifol.
- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd / i'w cymryd i sicrhau bod trefniadau ar gyfer cael mynediad at a gadael yr uned mewn perthynas â phawb sy'n ymweld yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a diogelwch tân.
- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod strwythur sefydliadol a systemau rheoli

prïodol ar waith ar gyfer rheoli ac atal heintiau a dadheintio. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn cael ei gynnal a'i lanhau i safon sy'n hwyluso arferion rheoli ac atal heintiau, ac sy'n rhyddhau'r staff i dreulio mwy o amser gyda chleifion.

- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau proffesiynol a lleol ar gyfer pob agwedd ar reoli meddyginiaethau.
- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad llawn i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ar ffurf tîm amlddisgyblaethol estynedig yn gweithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd i gofnodi a gwella iechyd a lles cleifion sy'n derbyn gofal a thriniaeth. Codwyd y broblem hon yn ystod yr arolygiad blaenorol ac felly mae'n parhau i fod heb ei datrys.

Y camau a ddywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Gwnaeth y gwasanaeth ymrwymo i gymryd y camau canlynol yn ei gynllun gwella:

- Cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol ar ddydd Mercher 15 Mawrth – cytunwyd na fyddai ailgaw'r claf yn erbyn ei ddymuniad yn datrys yr elfen ofal tymor hwy, na'r cwestiynau cysylltiedig â'i arwahaniad, ac ar y sail honno cytunwyd i gwblhau cais i'r Llys Gwarchod ar ran y claf cyn diwedd yr awdurdodiad cyfredol. Nid ydym yn gallu rheoli pa mor gyflym y byddai barnwr yn ystyried y cais, felly mae awdurdodiad byr wrthi'n cael ei roi ar waith. Mae data ymddygiad sylfaenol wrthi'n cael ei ddadansoddi er mwyn llywio cynlluniau'r dyfodol. Bydd y polisi neilltuo drafft yn cael ei derfynu a'i gytuno trwy is-bwyllgor sicrwydd ansawdd, diogelwch a phrofiad y gwasanaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu, er mwyn ei gadarnhau yng ngrŵp adolygu polisiâu clinigol y bwrdd iechyd.
- Mae proffiliau risg FACE wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau ar gyfer pob cleient yn yr uned a cheir tystiolaeth o hyn mewn cynlluniau gofal. Gwnaed hyn ym mis Hydref 2016. Bydd rheolwr busnes y gyfarwyddiaeth yn parhau i gwrdd yn rheolaidd â thîm gwybodeg y bwrdd iechyd er mwyn symud y gwaith o uwchlwytho offer anableddau dysgu i FACE/Care Partner yn ei flaen, er mwyn mwyafu'r defnydd o'r system electronig. Yn y cyfamser, caiff system lleoli/cyfeirnoddi ffeiliau ei datblygu ar gyfer pob tîm anableddau dysgu i alluogi'r holl staff i ddod o hyd i gofnodion penodol yn gyflym ac yn rhwydd.

- Mae protocol bellach wedi'i ysgrifennu a'i gyhoeddi, ac mae llyfr mewngofnodi/allgofnodi wedi'i fabwysiadu. Mae goriadau wrth gefn ar gyfer y cabinetau ffeilio wedi eu harchebu. Roedd y drefn lle'r oedd gan staff safle Hafan Derwen fynediad at oriadau'r ceir cronfa o'r uned yn ychwanegu at ddefnydd diangen o'r ceir. Bydd y drefn hon yn peidio o 30 Ebrill 2017.
- Gofynnwyd i arweinydd atal a rheoli heintiau'r bwrdd iechyd ymgymryd ag ymweliad dilynol a darparu adroddiad ynghylch unrhyw bryderon a chamau. Mae archwiliadau rheoli heintiau'n digwydd bob dwy flynedd ar draws yr unedau cleifion mewnol – mae'r archwiliad nesaf i fod yn 2017.
- Mae meddyginiaeth yn ôl yr angen (PRN) yn cael ei defnyddio'n anaml ar yr uned. Pan gaiff ei defnyddio, mae canllawiau clir ar waith ar gyfer rhesymeg, caiff un feddyginiaeth ei defnyddio yn hytrach nag un arall, ac mae ysbeidiau minimol cyn y gellir ailadrodd ail ddos PRN. Mae cofnodion gweithgarwch dyddiol yn dangos ym mhle y gweinyddwyd meddyginiaeth, gyda'r rhesymeg wedi'i hegluro a gwybodaeth am ganlyniad/effaith defnyddio'r feddyginiaeth ar y cleient. Mae hyn hefyd yn cael ei ddogfennu'n glir ar DATIX pan geir digwyddiad adroddadwy sy'n galw am ddefnyddio'r feddyginiaeth. Mae siartiau meddyginiaeth hefyd yn dangos arferion clir o ran rhagnodi a gweinyddu meddyginiaeth PRN. Mae'r ystafell glinigol wedi cael ei glanhau'n drylwyr ac mae eitemau â'u dyddiadau wedi dod i ben wedi cael eu gwaredu.
- Mae'r tîm wedi sicrhau bod pob un o'r pum cleient wedi derbyn ailasesiad o'i anghenion. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn, yn arbennig yr asesiadau synhwyaidd, yn hirfaith o ystyried bod y grŵp cleient mor gymhleth ac, o'r herwydd, nid yw popeth wedi'i gwblhau eto. Fodd bynnag, mae pob asesiad gofynnol wedi cychwyn ac mae diwrnodau hyfforddiant rhwydwaith naill ai wedi digwydd neu wedi'u cynllunio i ddod â'r asesiadau ynghyd a datblygu dadansoddiad llawn ar gyfer pob cleient unigol. Bydd timau amlddisgyblaethol ar gyfer yr holl gleientiaid wedi cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2017. Mae cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol wedi digwydd ar gyfer pob un o'r pum cleient ers yr arolygiad ym mis Mehefin 2016, ac mae dyddiadau wedi cael eu pennu ar gyfer 2017 er mwyn sicrhau bod cyfarfod yn digwydd bob tri mis ar gyfer pob cleient. Bydd yr arweinydd meddygol ar gyfer anabledau dysgu yn ailddatgan wrth y seiciatrydd ymgynghorol a'r cofrestrydd arbenigol fod angen iddynt sicrhau eu bod yn bresennol yn rheolaidd yn y rownd ward. Caiff adolygiad o gynllun gwaith y seiciatrydd ymgynghorol ei gynnal i

adolygu dyletswyddau clinigydd cyfrifol mewn perthynas â dwy uned cleifion mewnol.

Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilynol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn ystod ein harolygiad yn 2016, canfuom fod diffyg dealltwriaeth ymhlith y staff a oedd yn gweithio yn yr uned o'r hyn yr oedd yr arfer o neilltuo i reoli ymddygiadau cleifion a oedd yn herio yn ei olygu. Fodd bynnag, roedd yr arolygiad hwn yn dangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant gan y tîm seicoleg a'r tîm ymyrraeth a chymorth ymddygiad cadarnhaol. Roedd diwrnodau llunio gyda'r staff wedi cael eu cynnal lle datblygwyd cynlluniau unigol i reoli a chefnogi cleifion. Nid oedd cynlluniau cyflawn ar waith ar gyfer pob claf, ond rhoddwyd sicrwydd i ni fod hyn yn dasg barhaus.

Yn ystod ein hymweliadau blaenorol, canfuom broblemau mewn perthynas â neilltuo cleifion yn yr uned. Roedd adolygiad o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi arwain at atgyfeiriad at y tîm diogelu oedolion lleol gan gynrychiolydd unigolyn perthnasol. Canlyniad yr atgyfeiriad oedd cais i'r Llys Gwarchod.¹¹ Cynhaliwyd gwrandawriad llys a phenderfynwyd bod yr unigolyn yn derbyn gofal cyfreithlon mewn amgylchedd priodol.

Ar adeg yr arolygiad diwethaf, roedd polisi neilltuo drafft ar waith, a dywedwyd wrthym fod y tîm staff wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu a'u bod yn ei ddefnyddio. Nid oedd y polisi wedi cael ei gwblhau o hyd yn ystod yr arolygiad hwn.

Mae disgwyl o hyd i ymwelwyr ddefnyddio mynediad ochr yr adeilad lle nad oes modd o hysbysu'r staff eu bod wedi cyrraedd – er bod llyfr mewngofnodi, nid oes cloch o hyd.

¹¹ Mae'r Llys Gwarchod yn gwneud penderfyniadau am faterion ariannol neu les ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau ar yr adeg y mae angen eu gwneud (nid oes ganddynt alluedd meddyliol).

Mae'r cabinetau ffeilio sy'n cynnwys ffeiliau cyfrinachol wedi cael eu symud i swyddfa rheolwr yr uned a bellach yn cael eu cadw dan glo. Rydym yn fodlon, felly, fod ffeiliau'n cael eu storio mewn amgylchedd diogel.

Mae'r cyfrifiaduron yn dal i gael eu defnyddio yn y gegin felly mae angen bod yn ofalus pan fo cleientiaid yn defnyddio neu'n mynd trwy'r ystafell hon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd fod yn amserol wrth orffen y polisi neilltuo.

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu diogelwch yr adeilad.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod arolygiadau blaenorol AGIC, canfuom nad oedd staff cadw tŷ rheolaidd, penodol yn gysylltiedig â'r uned. Dywedwyd wrthym fod cogydd a swyddog cymorth gweinyddol bellach yn yr uned, a oedd yn lleihau'r tasgau cadw tŷ ar gyfer y nyrsys a staff gofal. Mae trefniadau hefyd ar waith i'r tîm atal a rheoli heintiau ymweld i roi cyngor a chymorth gydag unrhyw broblemau sy'n codi.

Rheoli meddyginiaethau

Yn ystod yr arolygiad dilynol diwethaf, gwnaethom edrych ar siartiau meddyginiaeth cleifion i bennu a oedd meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi a'u gweinyddu yn unol â deddfwriaeth Deddf Iechyd Meddwl 1983 a chanllawiau proffesiynol cyfredol. Gwnaethom archwilio'r trefniadau ar gyfer storio ac ymdrin â meddyginiaethau hefyd. Nodwyd y canlynol fel problemau i'w gwella:

- Roedd tystiolaeth gyfyngedig ar gyfer defnyddio meddyginiaeth 'yn ôl yr angen'. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu pennu a oedd y fath feddyginiaeth *ad hoc* yn cael ei gweinyddu ar adegau priodol a'r effaith yr oedd yn ei chael ar y cleifion dan sylw.
- Roedd gormod o stoc, megis cynwysyddion offer miniog, yn yr ystafell feddyginiaeth.
- Roedd nifer o eitemau yng nghypryddau'r ystafell feddyginiaeth wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben ac roedd angen iddynt gael eu gwaredu'n briodol.

Y tro hwn, canfuom fod yr ystafell glinigol wedi cael ei glanhau a bod unrhyw eitemau â'u dyddiadau wedi dod i ben wedi cael eu gwaredu. Gwnaethom edrych ar y siartiau gweinyddu meddyginiaeth a chanfuom eu bod wedi cael eu cwblhau'n gywir. Yn ogystal, roedd proses ar waith i sicrhau bod yr holl feddyginiaeth yn cael ei gweinyddu a'i storio'n ddiogel, megis archwiliadau a gwblheir gan nyrs ar sifftiau nos ac adolygiadau wythnosol gan y fferyllfa.

Gofal effeithiol

Cadw cofnodion

Gwnaethom drafod ac adolygu cynnwys sampl o gofnodion cleifion. O ganlyniad, canfuom y bu gwelliant sylweddol. Roedd asesiadau'r Offeryn Asesu Ymddygiad Cryno a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac amrediad o asesiadau risg gofynnol ar gyfer cleifion, wedi'u cwblhau'n llawn. Er bod rhywfaint o gynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol ar waith, roedd rhai yn dal i gael eu datblygu. Roedd y gwasanaeth hefyd yn defnyddio'r cynllun rheoli 13 cam¹² gyda rhai cleifion.

Roedd y system electronig FACE yn dal i fod wrthi'n cael ei diweddarau â chofnodion cleifion. Roedd y gwasanaeth yn disgwyl cyfres o offer anableddau dysgu newydd ar y system electronig erbyn mis Ionawr 2018. Yn y cyfamser, roeddent yn datblygu ffeil dros dro i storio cofnodion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwella dogfennau ynghylch y defnydd o afaelion lleiaf cyfyngiadol.

¹² Cynllun yw hwn a ddatblygir gyda chymorth clinigydd sydd ag arbenigedd ymddygiadol yn dilyn asesiad cynhwysfawr a dadansoddiad swyddogaethol o'r ymddygiad heriol. Dylai'r holl staff sy'n gweithredu'r cynllun hwn gael eu cefnogi trwy lefelau priodol o hyfforddiant a goruchwyliaeth.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Canfuom nad oedd polisi gweithredol terfynol cyfredol neu ganllaw tebyg ar waith o hyd i bennu cyfeiriad y gwasanaeth penodol hwn. Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o waith wedi dechrau ar fanylion y rolau unigol ond roedd hyn yn dal i fod ar uwch-lefel ac nid oedd wedi cael ei raeadru ymhlith holl aelodau'r staff.

Canfuom fod y cydweithio rhwng uwch-reolwyr y bwrdd iechyd a thîm staff yr uned wedi gwella'n sylweddol. Roedd rheolwr uned newydd yn y swydd ac, ar ddiwrnod yr arolygiad dirybudd, roedd dau uwch-reolwr hefyd yn bresennol. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn digwydd yn rheolaidd.

Roedd niferoedd y staff nyrso cofrestredig wedi gwella ac roedd tîm cyflawn yn gweithio yn yr uned ar adeg yr arolygiad hwn.

Roedd rhai meysydd heb eu cyflawni o hyd mewn perthynas â hyfforddiant staff.

Gwelliannau a nodwyd gennym

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi disgrifiad clir i AGIC ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol ar waith i arwain a chefnogi'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae hyn yn unol â'r safonau, sy'n datgan bod trefniadau o'r fath yn hanfodol i ddarparu gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gynaliadwy.

- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion llawn i AGIC ynglŷn â sut y bydd yn sicrhau bod digon o staff ar gael i weithio yn y gwasanaeth ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion cleifion bob amser. Mae hefyd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y modd y mae'n bwriadu lleihau oriau goramser staff a chreu patrwm sifft sy'n fwy cyson ag optimeiddio iechyd a lles unigolion.

Y camau a ddywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Adolygu a diweddarau'r polisi gweithredol drafft a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sydd ohoni. Cyflwyno cyfarfod llywodraethu clinigol ar gyfer yr uned. Ailstrwythuro trefniadau rheoli'r gwasanaeth anabledau dysgu ac iechyd meddwl pobl hŷn – mae hyn yn cynnwys capasiti penodol i un rheolwr gwasanaeth gymryd yr awenau ar yr uned cleifion mewnol. Mae canllaw pwy yw pwy darluniadol o'r strwythur uwch-reoli wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei raeadru ymhlith yr holl staff.

Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilynol

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yn ystod yr arolygiad dilynol hwn, canfuom fod y gwasanaeth yn cael ei reoli a'i redeg gan dîm o staff a oedd yn dangos ymroddiad i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Dangosodd sgysiau â'r staff hefyd eu bod yn dod yn gliriach ynghylch eu swyddogaethau a chyfrifoldebau, a gwnaethant ddisgrifio'r modd yr oeddent yn cefnogi ei gilydd yn y gwaith o ddydd i ddydd.

Fodd bynnag, nid oedd polisi gweithredol cyfredol neu ganllaw tebyg ar waith o hyd i amlinellu cyfeiriad y gwasanaeth penodol hwn. Roedd hyn yn golygu bod yn dal i fod diffyg eglurder strategol ynghylch y gwaith o ddarparu gwasanaethau er gwaethaf y ffaith fod systemau newydd ar waith.

Canfuom fod y cydweithio rhwng uwch-reolwyr y bwrdd iechyd a thîm staff yr uned wedi gwella ac roedd presenoldeb yr uwch-staff yn amlwg ar y dydd, gyda rheolwr newydd y gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cleifion mewnol a'r nyrs arweiniol broffesiynol yn yr adeilad pan gyrhaeddodd ni. Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu'n gwella, bod yr arweinyddiaeth yn gliriach, a'i bod yn haws mynd at yr arweinwyr. Roedd rheolwr newydd yn y swydd, a wnaeth gyrraedd hefyd yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod cyfarfodydd staff rheolaidd cofnodedig wedi cael eu hadfer, a dywedodd uwch-staff eu bod hefyd ar gael ar gyfer cyfarfodydd *ad hoc* pan oeddent ar y safle, boed hynny ar sail un-i-un neu mewn grŵp.

Hyd yn hyn, nid oedd cyfarfodydd llywodraethu clinigol ar gyfer yr uned wedi cael eu sefydlu. Wrth edrych i'r dyfodol, mae rheolwr yr uned wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am drefnu'r rhain yn rheolaidd o wybod bod pennaeth gwasanaeth bellach yn y swydd. Dylai'r rhain gynnig modd mwy tryloyw ac uniongyrchol o ledaenu gwybodaeth.

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, gwelsom ganllaw pwy yw pwy darluniadol o'r strwythur uwch-reoli a oedd ar gael i'r holl staff. Bydd hyn yn helpu i nodi llinellau rheolaeth ac atebolrwydd.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Bu newidiadau i uwch-reolwyr yr uned a threfniadau rheoli'r uned o ddydd i ddydd. Yn ôl pob golwg, cyflwynodd hyn heriau i ddechrau ond ymddengys fod newidiadau cadarnhaol yn y gweithle ac awyrgylch mwy cefnogol wedi llwyddo. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r staff siarad yn gadarnhaol am y newid yng nghyfeiriad y gwasanaeth.

Canfuom fod dwy nyrs gofrestredig wedi cael eu penodi i'r tîm staff a bod un arall wedi ei recriwtio i'r system gronfa fewnol. Mae'r gyfarwyddiaeth anabledau dysgu'n dal i fod ar gofrestr risg y bwrdd iechyd mewn perthynas â recriwtio a chadw, ac roedd cynllun wedi cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r diffygion staffio ledled y bwrdd iechyd.

Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant mewn nifer o'r meysydd a fyddai'n gwella gofal cleifion, ond nid oedd hyfforddiant mewn perthynas â chefnogaeth weithgar a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cael ei gwblhau o hyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr yr uned sicrhau y datblygir cyfarfodydd llywodraethu.

Mae'n rhaid i'r staff ymgymryd â hyfforddiant a fydd yn datblygu'r gofal a ddarperir ar gyfer cleifion, sef chefnogaeth weithgar a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad â rhybudd, sy'n golygu y gall gwasanaeth gael hyd at 12 wythnos o rybudd am yr arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau mae'r gwasanaeth wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf. Golyga hyn y byddwn dim ond yn canolbwyntio ar y [Safonau Iechyd a Gofal](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol, byddwn bob amser yn ystyried agweddau perthnasol ar:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae adborth yn cael ei ddarparu ar gyfer cynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd i'w gwella y mae angen eu gwneud o hyd.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon a oedd angen sylw ar unwaith	Effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: 17069

Dyddiad yr arolygiad: 9 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim materion sicrwydd dybryd wedi'u nodi.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: 17069

Dyddiad yr arolygiad: 9 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod y paneli arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely'n cael eu cadw ar gau fel mater o drefn i gynnal urddas a phreifatrwydd.	4.1 Gofal ag urddas	<p>Mae'r rheolwr wedi sicrhau bod y paneli arsylwi ar gau fel mater o drefn.</p> <p>Mae'r holl staff wedi cael eu hysbysu trwy gyfathrebiadau mewnol (yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo, cyfarfodydd tîm a sesiynau goruchwyllo).</p> <p>Caiff gweithdrefn weithredu safonol ei hysgrifennu i gynnwys y gofyniad i sicrhau bod paneli arsylwi'n cael eu</p>	Rheolwr y tîm Isla McEwan	Cwblhawyd 28/12/17 28/01/18

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cadw ar gau fel mater o drefn.		
Mae angen i'r gwasanaeth adolygu'r sawl gwahanol ddull cyfathrebu sydd ar gael a sicrhau bod gan bob claf fynediad at y dulliau cyfathrebu mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae angen cofnodi'r rhain yn eu pasbortau cyfathrebu.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Therapydd iaith a lleferydd i adolygu'r dulliau cyfathrebu ar gael o fewn y lleoliad/ardal leol. Dylid nodi unrhyw 'fylchau' yn y ddarpariaeth gyfathrebu a'u codi trwy strwythur llywodraethu'r gyfarwyddiaeth, a hynny trwy'r rheolwr gweithredol.	Kate Richardson Therapydd iaith a lleferydd arbenigol	11/04/18
		Therapydd iaith a lleferydd i sicrhau bod pasbortau cyfathrebu'n gyfredol ac ar gael yng nghofnodion y cleifion.	Kate Richardson Therapydd iaith a lleferydd arbenigol	11/04/18
Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod yr ystafell a ddefnyddir fel ardal gymunedol dawel yn ddiogel i'w defnyddio heb ddrws tân.		Y rheolwr i drefnu cyfarfod gyda swyddog tân y bwrdd iechyd i sicrhau bod yr ardal yn ddiogel i'w defnyddio.	Rheolwr y tîm Isla McEwan	Cwblhawyd
Mae angen i'r rheolwr ailsefydlu cyfarfodydd rheolaidd â'r adran ystadau i sicrhau bod gwaith		Dylid uwchgyfeirio achosion o waith heb ei gwblhau trwy fframwaith Llywodraethu Sicrwydd Perfformiad	Rheolwr y tîm Isla McEwan	Bob chwarter

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
atgyweirio'n cael ei gynnal mewn da bryd.		Busnes, a hynny trwy'r strwythur rheolaeth linell gweithredol. Rheolwyr gwasanaeth i gofnodi'n rheolaidd presenoldeb mewn cyfarfodydd staff mewn dyddiadur a darparu dyddiadau'r cyfarfodydd hyn ar gyfer timau staff.		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae angen i'r bwrdd iechyd fod yn amserol wrth orffen y polisi neilltuo.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Y polisi neilltuo i'w gadarnhau gan grŵp adolygu polisi clinigol y bwrdd iechyd.	Pennaeth nyrsio dros dro Nadine Morgan	28/01/18
Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu diogelwch yr adeilad a'r effaith ar breifatrwydd a chyfrinachedd.		Y rheolwr i adolygu mynediad at yr adeilad ar gyfer ymwelwyr a rhoi argymhellion i reolwr/pennaeth y gwasanaeth.	Isla McEwan Rheolwr y tîm	01/01/18
Mae angen gwella dogfennau ynghylch y	3.5 Cadw	Bydd ansawdd y dogfennau ynghylch y defnydd o afaelion lleiaf cyfyngiadol yn	Rheolwr y	28/02/18

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
defnydd o afaelion lleiaf cyfyngiadol.	cofnodion	cael ei archwilio'n rheolaidd. Pob aelod o'r tîm i fynychu gweithdy i sicrhau cysondeb o ran dealltwriaeth o'r hyn a fynnir ganddynt.	gwasanaeth Guto Davies Rheolwr gwasanaeth Guto Davies	Yn fisol, yna hapwiriadau wedi hynny 28/02/18
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae angen i reolwr yr uned sicrhau y datblygir cyfarfodydd llywodraethu.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Y rheolwr i sefydlu cyfarfod llywodraethu chwarterol a fydd yn adrodd wrth grŵp cynghori clinigol y gwasanaeth (grŵp llywodraethu ar draws y gwasanaeth).	Isla McEwan Rheolwr y tîm	28/02/18
Uwch-reolwyr i fynychu cyfarfodydd staff i drafod newidiadau parhaus yn y gwasanaeth.		Rheolwyr gwasanaeth i gofnodi'n rheolaidd presenoldeb mewn cyfarfodydd staff mewn dyddiadur a darparu dyddiadau'r cyfarfodydd hyn ar gyfer timau staff.	Rheolwr gwasanaeth Guto Davies	28/12/17

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r staff ymgymryd â hyfforddiant a fydd yn datblygu'r gofal a ddarperir ar gyfer cleifion, sef cefnogaeth weithgar a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.	7.1 Y gweithlu	Y rheolwr i sicrhau bod y staff yn derbyn hyfforddiant cefnogaeth weithgar a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.	Isla McEwan Rheolwr y tîm	20/06/18

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Nadine Morgan

Swydd: Pennaeth Nyrsio, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu dros dro

Dyddiad: 13 Rhagfyr 2017